Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1296 (Cy. 210)

# CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Yn dilyn adolygiad o'r symiau trothwy perthnasol, mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno diwygiadau i Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023 ("y Ddeddf") drwy hepgor colofn yn y tabl a nodir yn Atodlen 1. Mae hyn yn sicrhau y bydd y trothwyon fel y'u gosodir yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau yn gymwys i gontractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gweithiau a gwasanaethau a reoleiddir gan Weinidogion Cymru. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod Atodlen 1 i'r Ddeddf yn adlewyrchu rhwymedigaethau masnach ryngwladol Cymru.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r tabl yn Atodlen 1 sy'n nodi'r symiau trothwy ar gyfer amryw fathau o gontractau. Mae'r trothwyon hynny yn pennu uwchlaw pa werth y mae contractau o wahanol fathau i gael eu rheoleiddio gan y gyfundrefn o sylwedd.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â'r newidiadau i drothwyon, gan ei gwneud yn glir o ba bryd y maent yn cael effaith.

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1296 (Cy. 210)

# CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *9 Rhagfyr 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru 11 Rhagfyr 2025*

*Yn dod i rym am 12.05 a.m. ar 1 Ionawr 2026*

Mae Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 12.05 a.m. ar 1 Ionawr 2026(**3**).

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2023" yw Deddf Caffael 2023.

(**1**) Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" fel y diffinnir "appropriate authority" yn adran 123(1) o Ddeddf Caffael 2023, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn adran 111(1) o'r Ddeddf honno.
(**2**) 2023 p. 54.
(**3**) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ôl O.S. 2025/1200 a ddaw i rym am 12.00 a.m. ar 1 Ionawr 2026.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 2023**

**3.**—(1) Mae paragraff 1 o Atodlen 1(**1**) i Ddeddf 2023 (symiau trothwy) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1)—

(a) yn y geiriau o flaen y tabl—

(i) ar ôl "the table below is" hepgorer "—" a mewnosoder "the threshold set out in the corresponding row of the third column.";

(ii) hepgorer paragraffau (c) a (d).

(b) yn y tabl—

(i) hepgorer y drydedd golofn (fel bod y bedwaredd golofn yn dod yn drydedd golofn);

(ii) ym mhennawd y drydedd golofn newydd, hepgorer ": any other contract".

(3) Hepgorer is-baragraff (1B).

**Darpariaethau Trosiannol**

**4.**—(1) Yn y rheoliad hwn—

mae i "awdurdod contractio" yr ystyr a roddir i ("*contracting authority*") gan adran 2(1) o Ddeddf 2023;

mae i "contract sydd o dan y trothwy" yr ystyr a roddir i ("*below-threshold contract*") gan adran 5(5) o Ddeddf 2023.

(2) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn effeithio ar unrhyw gaffaeliad sydd wedi ei ddechrau cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) At ddiben paragraff (2), mae caffaeliad wedi ei ddechrau cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym os, cyn y diwrnod hwnnw—

(a) yw hysbysiad tendro wedi ei gyhoeddi yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2023 (hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig);

(b) yw hysbysiad tryloywder wedi ei gyhoeddi yn unol ag adran 44 o Ddeddf 2023 (hysbysiadau tryloywder);

(c) yw hysbysiad tendro sydd o dan y trothwy wedi ei gyhoeddi yn unol ag adran 87(**2**) o Ddeddf 2023 (contractau rheoleiddiedig sydd o dan y trothwy: hysbysiadau);

(d) mewn cysylltiad â phob contract arall sydd o dan y trothwy, yw awdurdod contractio wedi

---

(**1**) Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2025/163, O.S. 2025/181 (Cy. 38) ac O.S. 2025/1200. Gwnaed diwygiadau eraill ond nid yw'r rhain yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Diwygiwyd adran 87(4) gan O.S. 2024/782 (Cy. 121).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cysylltu â chyflenwr er mwyn dechrau dyfarniad y contract hwnnw.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
9 Rhagfyr 2025